Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

Hydref 2025

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

## Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) Llywodraeth y DU

**1.** Cyflwynwyd y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 16 Hydref 2024. Fe'i noddir gan Kim Leadbeater AS. Mae'n Fil Aelod Preifat.[2]

**2.** Mae enw hir y Bil yn nodi ei ddiben, sef:

> *"Allow adults who are terminally ill, subject to safeguards and protections, to request and be provided with assistance to end their own life; and for connected purposes."*[3]

**3.** Mae 43 o gymalau a 6 Atodlen yn y Bil.

**4.** Cafodd y Bil ei ail ddarlleniad ar 29 Tachwedd 2024. Daeth y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 25 Ionawr 2025, a dechreuodd y Cyfnod Adrodd ar 16 Mai 2025. Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 20 Mehefin 2025 a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 23 Mehefin 2025.[4] Ar adeg cytuno ar ein hadroddiad, roedd y Bil ar ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fo un o Filiau perthnasol y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**6.** Ar 9 Ebrill 2025, gosododd Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yr Ysgrifennydd Cabinet), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[5]

**7.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y

[1] Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), fel y'i cyflwynwyd (Bil 12)
[2] Gweler: Private Members' Bill ballot to be drawn on Thursday 5 September, 3 Medi 2024
[3] Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) fel y'i cyflwynwyd, tudalen 1
[4] Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin (Bil Tŷ'r Arglwyddi 112)
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), 9 Ebrill 2025

Memorandwm erbyn 27 Mehefin 2025.[6] Ar 24 Mehefin 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes i estyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad tan 19 Medi 2025.[7]

## Gwybodaeth gefndir am y Bil

**8.** Ar hyn o bryd, yn rhinwedd adran 2 o *Ddeddf Hunanladdiad 1961* (Deddf 1961), mae'n drosedd cynorthwyo neu annog yn fwriadol hunanladdiad neu ymgais i gyflawni hunanladdiad gan berson arall.

**9.** Bydd y Bil, os caiff ei basio, yn nodi, os bydd unrhyw berson yn cynorthwyo oedolyn sy'n derfynol sâl i ddod â'i fywyd i ben yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn y Bil, na fydd cymorth o'r fath yn drosedd o dan adran 2.

**10.** Mae'r Bil yn ceisio cyflawni'r amcan polisi hwn drwy:

- yn gyntaf, ddiwygio Deddf 1961 i warchod y rhai sy'n gweithredu yn unol â'r Bil rhag atebolrwydd troseddol;
- yn ail, reoleiddio sut y mae rhaid darparu cymorth er mwyn elwa ar y warchodaeth honno.

**11.** Pe bai person yn cynorthwyo hunanladdiad rhywun arall *heblaw* yn unol â'r Bil, byddai felly'n parhau i fod yn drosedd o dan adran 2 o Ddeddf 1961.

**12.** Mae'r fframwaith rheoleiddio y mae’r Bil yn ei sefydlu yn cynnwys darpariaeth y bydd y person sy'n ceisio cymorth yn cael ei asesu gan ddau ymarferydd meddygol cofrestredig a fydd yn llunio adroddiad ar yr asesiadau hynny. Yna, bydd yr adroddiadau'n cael eu hystyried gan Banel Adolygu Marw â Chymorth amlddisgyblaethol a fydd yn cynnwys barnwr, seiciatrydd a gweithiwr cymdeithasol. Bydd y Panel yn clywed yn uniongyrchol gan y person sy'n ceisio cymorth a'r meddyg cydgysylltu. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, bydd y Panel yn penderfynu a yw'r person sy'n ceisio cymorth yn gymwys i gael y cymorth o dan y Bil. Bydd y meddygon sy'n asesu a'r Panel i gyd yn ystyried a oes gan y sawl sy'n ceisio cymorth ddymuniad clir a phendant, sy’n seiliedig ar wybodaeth, i ddod â'i fywyd ei hun i ben ac a yw wedi gwneud y penderfyniad hwnnw heb orfodaeth na phwysau.

**13.** Mae'r Bil hefyd yn creu Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol (y Comisiynydd) a benodir gan Brif Weinidog y DU. Rhaid iddo ddal neu fod wedi dal

[6] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), Ebrill 2025
[7] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), Mehefin 2025

swydd fel barnwr yn y Goruchaf Lys, y Llys Apêl, neu'r Uchel Lys. Prif swyddogaethau'r Comisiynydd fydd cael dogfennau a wneir o dan y Ddeddf, gwneud penodiadau i restr o bersonau sy'n gymwys i eistedd ar Baneli Adolygu Marw â Chymorth, cyfeirio achosion at Baneli adolygu, penderfynu ar geisiadau i ailystyried penderfyniadau'r Paneli a monitro gweithrediad y Ddeddf a chyflwyno adroddiad ar hynny'n flynyddol.

**14.** Mae Memorandwm Llywodraeth Cymru yn rhoi naratif ar ddarpariaethau'r Bil.[8]

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**15.** Ar ôl iddo gael ei gyflwyno, diwygiwyd y Bil yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus[9] a chwblhawyd trafodion y Cyfnod Pwyllgor ar 25 Mawrth 2025.

**16.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi bod asesiad Llywodraeth Cymru o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus wedi dod i'r casgliad bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r darpariaethau a ganlyn:

- Cymal 37 – Canllawiau ynghylch gweithredu'r Ddeddf

  Mae cymal 37 yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Swyddog Meddygol Cymru lunio a chyhoeddi canllawiau sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf. Rhaid iddo ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol cyn llunio canllawiau, a rhaid i'r personau hynny gynnwys pobl ag anableddau dysgu.

- Cymal 39(1), (2), (5) a (6) – Gwasanaethau Marw â Chymorth yn Wirfoddol: Cymru

  Mae cymalau 39(1) a 39(2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol yng Nghymru, gan gynnwys darpariaeth i sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer darparu gwasanaethau o'r fath, lle y gellid gwneud darpariaeth o'r fath drwy Ddeddf gan Senedd Cymru a lle y byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf o'r fath. Mae cymal 39(5) yn cadarnhau na chaiff rheoliadau ddiwygio'r Ddeddf ac mae cymal 39(6) yn diffinio gwasanaethau marw â chymorth gwirfoddol ("voluntary

[8] Y Memorandwm, paragraff 6, is-baragraffau a i o.
[9] Bil 212, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus Gweler hefyd Trafodion y Cyfnod Pwyllgor.

assisted dying services") at ddibenion y ddarpariaeth ehangach. Mae rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (gweler cymal 50).[10]

- Cymal 45 – Monitro gan y Comisiynydd

  Mae cymal 45 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd fonitro gweithrediad y Ddeddf, ymchwilio i unrhyw fater sy'n gysylltiedig â gweithrediad y Ddeddf y mae awdurdod cenedlaethol priodol yn ei gyfeirio at y Comisiynydd, rhoi adroddiad i'r awdurdod hwnnw ar hynny, a chyflwyno adroddiad blynyddol i bob awdurdod cenedlaethol priodol ynghylch gweithrediad y Ddeddf. Wrth lunio'r adroddiad, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Prif Swyddog Meddygol (ymhlith eraill). Rhaid i'r awdurdod cenedlaethol priodol gyhoeddi unrhyw adroddiad blynyddol a geir o dan yr adran hon, llunio a chyhoeddi ymateb i unrhyw adroddiad o'r fath, a gosod copi o'r adroddiad a'r ymateb gerbron Senedd y DU neu Senedd Cymru (yn ôl y digwydd). Ystyr awdurdod cenedlaethol priodol yw naill ai yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru.

- Cymal 47(4) – Darparu gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg

  Mae cymal 47 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw wasanaeth, adroddiad, datganiad neu dystysgrif cymhwystra a ddarperir o dan y Ddeddf i berson sy'n ceisio cymorth i ddod â'i fywyd ei hun i ben fod yn iaith gyntaf y person, os yw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddo, neu yn ei ddewis iaith o blith y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau penodedig eraill o'r Ddeddf (adrannau 7, 9, 10, 17 neu 26) sy'n pennu ffurf a chynnwys datganiadau hefyd wneud darpariaeth iddynt fod yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae cymal 47(4) yn darparu na chaniateir gwneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer y Gymraeg oni bai bod drafft wedi'i osod gerbron Senedd Cymru ac wedi'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

- Cymal 50(1), (2), (5) a (6) – Rheoliadau

  Mae cymal 50 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf. Dywed cymal 39(5) na chaiff Gweinidogion Cymru wneud

[10] Mae cymal 39 hefyd yn rhoi pŵer cyfatebol i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau o ran Cymru sy'n ymwneud â materion sydd y tu allan i gymhwysedd.

offeryn statudol sy’n cynnwys rheoliadau o dan adran 39 oni bai bod drafft o’r offeryn wedi'i osod gerbron Senedd Cymru ac wedi'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad. Mae cymal 50(1) hefyd yn cynnwys pŵer cyffredinol sy’n nodi bod pŵer i wneud rheoliadau o dan unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol a darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed. Mae cymal 50(2) yn cadarnhau bod rheoliadau i’w gwneud drwy offeryn statudol. Mae cymal 50(6) yn cadarnhau nad yw'r cymal hwn yn gymwys i reoliadau o dan adran 54 (cychwyn).

- Cymal 54(6), (8) a (9) – Cychwyn

Mae cymal 54 yn ymdrin â chychwyn. Mae cymal 54(6) yn darparu, o ran Cymru, fod darpariaethau'r Ddeddf nad ydynt yn cael eu dwyn i rym gan gymal 54(1) yn dod i rym ar ddiwrnod neu ddiwrnodau a bennir drwy reoliadau gan Weinidogion Cymru (ac na chaniateir gwneud rheoliadau o'r fath oni bai bod offeryn statudol drafft sy'n eu cynnwys wedi'i osod gerbron Senedd Cymru, a wedi'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad). Mae cymal 54(1) yn dod ag adrannau 43 a 49 i 55 i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf ei phasio. Mae cymal 54(8) yn darparu bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan yr adran hon yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol. Mae cymal 54(9) yn darparu bod rheoliadau o dan yr adran hon i’w gwneud drwy offeryn statudol.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**17.** Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet yn y Memorandwm:

*“Nod y Bil hwn yw caniatáu i oedolion sy'n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â'u bywydau eu hunain i ben, a chael cymorth o'r fath, yn ddarostyngedig i fesurau diogelu ac amddiffyniadau.*

*Y prif fecanwaith y mae'r Bil yn cyflawni hyn drwyddo yw drwy ddiwygiadau i Ddeddf Hunanladdiad 1961, sydd wedi'i chyfyngu gan Atodlen 7B.*

*Fodd bynnag, mae cymalau 37, 39, 45, 47, 50 a 54 yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru a*

> *Phrif Swyddog Meddygol Cymru ac sy'n effeithio'n uniongyrchol ar Senedd Cymru ac felly'n rhoi sylw i faterion datganoledig."*[11]

**18.** Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd:

> *"Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei safbwynt ynghylch a yw'n credu bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil hwn fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Bil Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae wedi cydnabod bod rhai cymalau yn torri ar draws materion datganoledig. Rydym yn cytuno â'r asesiad hwn a byddwn yn parhau i gysylltu â Llywodraeth y DU ac i asesu'r safbwynt hwn wrth i'r Bil fynd rhagddo."*[12]

**19.** Gwnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 19 Mai 2025 i ofyn pam nad oedd angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1 i 28, 31 i 36, 38, 40 i 44, 46, 48, 49 a 51 i 53 o'r Bil (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus), o ystyried y byddai'r fframwaith rheoleiddio sy'n cael ei greu, y gellir rhoi cymorth yn gyfreithlon i rywun arall ddod â'i fywyd ei hun i ben o'i fewn, yn cael ei ddarparu'n bennaf mewn lleoliad GIG.[13] Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar 30 Mehefin 2025.[14]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

**20.** Ar 4 Gorffennaf 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[15]

**21.** Ar 8 Gorffennaf 2025, pennodd y Pwyllgor Busnes ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2, sef 10 Hydref 2025.[16]

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**22.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn ymwneud â gwelliannau i'r Bil a dderbyniwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.[17]

---

[11] Y Memorandwm, paragraffau 10 i 12
[12] Y Memorandwm, paragraff 8
[13] Llythyr at yr Ysgrifennydd Cabinet, 19 Mai 2025
[14] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 30 Mehefin 2025
[15] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), 4 Gorffennaf 2025
[16] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), Gorffennaf 2025
[17] Gweler Trafodion y Cyfnod Adrodd a Bil Tŷ'r Arglwyddi 212, fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin

**23.** Roedd tri gwelliant yn hepgor darpariaethau yr oedd y Memorandwm yn ceisio cydsyniad ar eu cyfer, sef:

- Cymal 37 – Canllawiau ynghylch gweithredu'r Ddeddf;
- Cymal 47 – Darparu gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg;
- Cymal 54(6) – yn ymwneud â chychwyn.[18]

**24.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer tri gwelliant arall a gyflwynwyd yn y Cyfnod Adrodd, sy'n gwneud darpariaeth newydd mewn perthynas â'r un materion ag yr oedd y darpariaethau a hepgorwyd yn ymdrin â hwy:

- Cymal newydd 40 (canllawiau ynghylch gweithredu'r Ddeddf) – mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf yng Nghymru, ynghylch materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn arfer y pŵer. Mae hefyd yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i ddyroddi canllawiau sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf, gan gynnwys mewn perthynas â materion y gall Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau yn eu cylch; felly, mae'n creu pŵer cydredol.
- Cymal newydd 51 (darpariaeth ynghylch y Gymraeg) – mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau o dan gymal 42 i wneud darpariaeth ar gyfer Gwasanaethau Marw â Chymorth yn Wirfoddol yng Nghymru,[19] gynnwys unrhyw ddarpariaeth y maent yn ystyried ei bod yn briodol i sicrhau, os bydd person sy'n ceisio cymorth o dan y Ddeddf yn nodi ei fod yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg, y cymerir pob cam rhesymol i sicrhau bod cyfathrebiadau ac adroddiadau yn Gymraeg. Mae hefyd yn darparu, ar ôl i berson nodi ei fod yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg, fod rhaid i'r Comisiynydd gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cyfathrebu'n digwydd yn Gymraeg a bod aelodau'r panel yn siarad Cymraeg. Yn olaf, mae'n darparu, wrth wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer fformat y datganiadau o dan gymalau 8 (cais cychwynnol am gymorth: datganiad cyntaf) a 19 (cadarnhad o gais am gymorth: ail ddatganiad), adroddiadau meddyg o dan gymalau 10 (asesiad y meddyg cyntaf (meddyg

[18] Memorandwm Rhif 2, paragraff 11
[19] Cymal 39 gynt fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus

cydgysylltu)) ac 11 (asesiad yr ail feddyg (meddyg annibynnol)) a'r datganiad terfynol sy'n ofynnol o dan gymal 28 (datganiad terfynol), y dylai rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol ar y materion hynny wneud darpariaeth i'r ffurfiau fod yn Gymraeg a Saesneg.

- Cymal 58(5) (cymal 54(5) gynt) – ar ôl ei ddiwygio, mae'r cymal hwn yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, gychwyn adrannau 42(1), 42(2), 51(2) a 51(3). Nid yw rheoliadau cychwyn o dan y ddarpariaeth hon yn ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau'r Senedd.[20]

**25.** Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Mae'r cymal 40 newydd (Gwelliant NC20), y cymal 51 newydd (ac eithrio is-adran (4)) (Gwelliant NC21) a chymal 58(5) (fel y'i diwygiwyd gan welliant 94 – cymal 54(5) yn wreiddiol)) yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru a Phrif Swyddog Meddygol Cymru neu sy'n effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru a Phrif Swyddog Meddygol Cymru ac sydd felly'n rhoi sylw i faterion datganoledig."*[21]

**26.** Gan hynny, mae'r Ysgrifennydd Cabinet o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn.[22] Nid yw safbwynt Llywodraeth y DU wedi newid.[23]

# 2. Trafodaethau'r Pwyllgor

**27.** Gwnaethom drafod ein hadroddiad a chytuno arno yn ein cyfarfod ar 15 Medi 2025.[24]

## Ein barn ni

**28.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir yn y Memorandwm ac ym Memorandwm Rhif 2.

**29.** Nodwn hefyd safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad.

---

[20] Gweler Memorandwm Rhif 2, paragraffau 13 i 16
[21] Memorandwm Rhif 2, paragraff 21
[22] Memorandwm Rhif 2, paragraff 18
[23] Memorandwm Rhif 2, paragraff 17
[24] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Medi 2025

**Casgliad 1.** Yn amodol ar argymhelliad 1, rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil, fel y nodir yn y Memorandwm ac ym Memorandwm Rhif 2, y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29.

**30.** Mae'r Bil yn creu fframwaith rheoleiddio y gellir rhoi cymorth yn gyfreithlon i rywun arall ddod â'i fywyd ei hun i ben o'i fewn, a byddai'r fframwaith hwnnw'n cael ei ddarparu'n bennaf mewn lleoliad GIG. Yn ein barn ni, mae hynny'n bodloni'r prawf yn Rheol Sefydlog 29.1 o ran ymwneud â materion sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig. Felly, gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet pam nad oedd angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1 i 28, 31 i 36, 38, 40 i 44, 46, 48, 49 a 51 i 53 o'r Bil (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus). Atebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Yn unol â'r prawf yn Rheol Sefydlog 29 (RhS29) o Reolau Sefydlog y Senedd, daeth ein hasesiad o'r Bil i'r casgliad bod angen cydsyniad Senedd Cymru mewn perthynas â chymalau 37, 39, 45, 47, 50 a 54. Daethom i'r casgliad nad oedd y prawf yn RhS29 wedi'i fodloni mewn perthynas â'r cymalau eraill a godwyd yn eich llythyr. Nid ydym yn gallu datgelu manylion ein hasesiad, gan y byddai gwneud hynny yn hepgor braint broffesiynol gyfreithiol."*[25]

**31.** Mae'r ymateb hwn yn peri syndod inni, yn enwedig yng nghyd-destun y broses cydsyniad deddfwriaethol a rôl y Senedd yn y broses honno.

**32.** Mae iechyd wedi'i ddatganoli at ei gilydd i'r Senedd. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y rhan fwyaf o'r darpariaethau hyn yn y Bil yn rhoi sylw i fater datganoledig, sef iechyd, oherwydd bod darpariaethau'r Bil yn gosod dyletswyddau ar y gweithwyr iechyd proffesiynol a fydd yn cynorthwyo unigolyn i ddod â'i fywyd i ben drwy roi gofal meddygol, a hefyd mewn perthynas â llawer o'r mesurau diogelu hollbwysig sy'n rhan o'r ffordd y darperir y gofal hwnnw er mwyn amddiffyn y cyhoedd. Felly, rydym yn synnu nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet yn gallu rhoi unrhyw wybodaeth am ddehongliad gwahanol y llywodraeth heb beryglu braint broffesiynol gyfreithiol. Rydym yn rhagweld y byddai hynny o gymorth i'r Senedd wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ac y byddai'n gyson â'r ffordd y ymdriniwyd â memoranda cydsyniad deddfwriaethol rhwng y llywodraeth a'r Senedd yn y gorffennol, sy'n anochel yn ymwneud â chwestiynau ynghylch cymhwysedd.

[25] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Cabinet, 30 Mehefin 2025

**33.** Yn niffyg unrhyw dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru i'r gwrthwyneb, credwn fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau yn y Bil sy'n berthnasol i leoliadau'r GIG a'r fframwaith rheoleiddio y gall person gael cymorth yn gyfreithlon i ddod â'i fywyd ei hun i ben o'i fewn (mae hyn yn cynnwys cymalau newydd a ychwanegwyd at y Bil drwy welliannau yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin).

**Argymhelliad 1.** Rydym o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1 i 31, 34 i 40 a 42 i 59 o'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin).

**34.** Nodwn fod egwyddorion Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig yn nodi bod y ffactorau a ganlyn yn rhan o'i hystyriaethau ynghylch a ddylid argymell rhoi cydsyniad i Filiau'r DU:

- i Weinidogion Cymru yn unig y dylid rhoi pwerau dirprwyedig mewn Biliau gan Senedd y DU mewn meysydd datganoledig;
- ni ddylai Biliau gan Senedd y DU greu pwerau cydredol;
- os bydd Gweinidogion Cymru, mewn "achosion eithriadol", yn cytuno y dylid creu pwerau cydredol, dylai pwerau o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r mecanweithiau cydsynio perthnasol ac i'r eithriadau cysylltiedig o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006), fel nad yw'n ofynnol i'r Senedd gael cydsyniad ar gyfer dileu'r pwerau yn y dyfodol.[26]

**35.** Ymddengys nad yw'r Bil yn cynnwys mecanwaith cydsynio perthnasol ar gyfer amgylchiadau pan fo Gweinidogion y DU yn arfer y pŵer a ddarperir yng nghymal 40 o'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin) mewn maes datganoledig ac eithriad cysylltiedig i Ddeddf 2006.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog esbonio pam y mae'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin) yn creu pŵer cydredol yng nghymal 40 nad yw'n ddarostyngedig i fecanwaith cydsyniad perthnasol ac eithriad cysylltiedig i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

**36.** Mae cymal 58(4) o'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin) yn cynnwys "dyddiad olaf un" o bedair blynedd yn Lloegr, h.y. mae'n darparu, os na fydd unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r Bil wedi dod i rym drwy Orchymyn o fewn pedair blynedd i gael y Cydsyniad Brenhinol, y cânt eu cychwyn yn awtomatig. Fodd bynnag, mae paragraff 16 o Femorandwm Rhif 2 yn awgrymu bod y dyddiad olaf un ar gyfer cychwyn hefyd yn gymwys i bwerau cychwyn Gweinidogion Cymru

[26] Llywodraeth Cymru, Egwyddorion ar Ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig, Rhagfyr 2024

yng nghymal 58(5) mewn perthynas ag adrannau 42(1), 42(2), 51(2) a 51(3) o'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin), pan ymddengys nad felly y mae hi yn rhinwedd geiriad y cymal hwnnw.

**Argymhelliad 3.** Dylai’r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau mai drwy reoliadau yn unig y caiff Gweinidogion Cymru gychwyn adrannau 42(1), 42(2), 51(2) a 51(3) o'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin) ac nad oes dyddiad olaf un o ran cychwyn yn awtomatig yn gymwys.